Rhybudd: Mae gwallau iaith yn y darn hwn

# WAW WAKESTOCK

**Nos Wener**

Cyrraedd yn gynnar gyda'r nos i weld yr haul yn machlud yn goch dros Fae Ceredigion a thraeth Abersoch, lle y bydd ychydig o'r dŵrfyrddio yn digwydd, dafliad carreg oddi wrthym. Cyfleus iawn.

Dim trafferth ciwio wrth fynd i mewn i'r maes gwersylla a'r stiwardiaid yn gwrtais. Y maes gwersylla mewn cyflwr dda, a ffair fechan i'n cadw'n hapus a digon o stondinau bwyd i'n cadw rhag llwgu. Dadbacio'n gyflym a chael ein rhyfeddu pa mor agos ydy popeth. Pum munud o gerdded a dyna ni ar y maes. Cael band garddwrn wrth fynd trwy'r giat ac archwiliad sydyn rhag ofn bod gennym *contraband*. £125 yn rhesymol iawn am dair noson.

**Dydd Sadwrn**

Codi cyn cŵn Caer er mwyn gwneud yn fawr o'n hamser yma. Dal un o'r llu o fysus oedd yn mynd â ni i lawr i Bwllheli. Dim ond £7 ydy tocyn bws am benwythnos cyfan. Yn llawer gwell na mynd mewn car. Cymryd 10 munud i fynd i farina Pwllheli.

Erioed wedi gwylio *wakeboarding* o'r blaen a rhaid dweud mod i wedi gwirioni. Dull perffaith o ymlacio yn yr haul ar ôl noson hwyr gyda chystadleuwyr o bedwar ban y byd - Thailand, Awstralia, Canada, America ac ati, heb sôn am dalentau lleol. Pobl enwog fel Nico von Lerchenfeld (Yr Almaen), Marc Rossiter (Prydain), Nate Perry (America), Nick Davies (Prydain), Mitch Langfield (Awstralia) a Dylan Miller (Canada).4 rownd o 6 byrddiwr yn brwydro am 8 lle yn y rownd derfynol ym marina Pwllheli. Y promenâd yn lle anhygoel i wylio gyda DJs proffesiynol yn cyflwyno traciau sain cefndirol ac yn ychwanegu 'buzz' i'r marina. I gyd o'r bobl oedd yno wrth eu bodd.

Nôl ar y bws i'r prif safle ym Mhenrhos. (Dim ond 5 munud o Bwllheli). Y giatiau yn agor am 4 o'r gloch a'r grŵp cyntaf ar y llwyfan am 5 o'r gloch. Cyfle ffantastig i grwpiau lleol ymarfer eu talent. Dim llawer iawn o bobl yno. Llenwi pan ddechreuodd yr enwau mawr ymddangos tua 7 o'r gloch.

Rhai wedi bod yn yfed rhy gormod yn y maes gwersylla cyn dod i'r arena. Hyn yn biti oherwydd roedd y pwyllgor wedi cael gafael ar grwpiau gwych.

Dwy lwyfan anferth ar y maes yn ogystal â phabell fechan. Cyfle i wrando ar bawb oherwydd doedd 'yr enwau mawr' byth ymlaen yr un pryd. Wedi gwirioni ar Ed Sheeran a'r awyrgylch yn drydanol pan ddaeth Calvin Harris a Dizzee Rascal ar y llwyfan.

Ar y bws eto a syrthio fel sach o datws ar y gwely yn barod i gysgu fel mochyn ac i freuddwydio am wrando ar Random Impulse, Disclosure a Doctor P fory! Bydd Steven Dyer yno hefyd!

'RYDW I YN FAN'NA YN RHYWLE!'

